## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985") a Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") o ganlyniad i Ddeddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaethau arbed er mwyn sicrhau y bydd darpariaethau perthnasol o fewn Deddf 1985 yn parhau i fod yn gymwys mewn cysylltiad â cheisiadau a wneir i arfer yr hawl i brynu neu'r hawl i gaffael mewn cysylltiad â thai annedd yng Nghymru ar 25 Ionawr 2019 neu cyn hynny ac mewn cysylltiad â thai annedd sydd wedi eu prynu o dan yr hawl i brynu neu'r hawl i gaffael ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny (neu ar ôl y dyddiad hwnnw yn unol â hysbysiad a gyflwynir cyn y dyddiad hwnnw).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaethau arbed er mwyn sicrhau y bydd rhyddhadau perthnasol o fewn Atodlen 15 i Ddeddf 2017 hefyd yn gymwys mewn cysylltiadau â thrafodiadau sy'n codi o geisiadau a wneir i arfer hawliau i brynu penodol a rhent i forgais a gyflwynir ar 25 Ionawr 2019 neu cyn hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.